# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Mehefin 2020

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, G Giles, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman

Beverly Owen (Chief Executive), Tracey Brooks (Head of Regeneration, Investment and Housing), Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre), Gareth Price (Head of Law & Regulation) and Meirion Rushworth (Head of Finance)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Agorodd yr Arweinydd y cyfarfod trwy gadarnhau, yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet ar 18 Mawrth, fod y Cyngor wedi symud i bwerau brys. Cyfarfod y Cabinet heddiw yw'r cyntaf i gael ei gynnal ers hynny, ac y mae'n cael ei gynnal yn rhithiol. Gofynnodd yr Arweinydd i bawb fyfyrio'n dawel am ennyd i gofio'r sawl a gollodd eu bywydau ac i feddwl am y teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid i'r firws.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

3 **Covid-19: Nodau Adfer Strategol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n gosod allan y nodau adfer strategol fydd yn galluogi gwasanaethau'r Cyngor i adfer a rhedeg a dal i gefnogi nodau strategol a osodir allan yn y Cynllun Corfforaethol am 2017/22.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod argyfwng iechyd Covid-19 wedi dod â heriau sylweddol a digynsail i'r modd mae'r Cyngor yn cyflwyno ei wasanaethau a'r effaith ar ffordd o fyw.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y canlynol:

- Y bu'r Cyngor yn canoli ar arbed bywydau, lleihau lledaeniad y firws a chefnogi cymunedau a phobl fregus yr effeithiodd y clefyd hwn arnynt.
- Yn y cyfnod anodd hwn, mae'r Cyngor wedi sicrhau y parheir i gyflwyno gwasanaethau rheng-flaen i gymunedau ledled Casnewydd. O'r cychwyn cyntaf, dywedodd y Cabinet y byddai'n canolbwyntio ar y canlynol:

- o Parhau i gasglu gwastraff o gartrefi;
- o Dosbarthu dros 700 o barseli bwyd o Hybiau Cymdogaeth y Cyngor;
- o Ysgolion yn cefnogi plant gweithwyr allweddol a phlant bregus.
- o 10 lleoliad Dechrau'n Deg yn edrych ar ôl 94 o blant a chefnogi 81 o weithwyr allweddol;
- o Gofal a chefnogaeth yn dal i gael ei roi gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion y Cyngor a sicrhau fod staff rheng-flaen yn gallu cael PPE;
- o Gweinyddu gwerth £30 miliwn o grantiau busnes i 2,250 o fusnesau cymwys yng Nghasnewydd;
- o Gyda'n partneriaid, darparu llety diogel i'r digartref yng Nghasnewydd;
- o Staff y Cyngor yn gweithio o gartref trwy'r gefnogaeth TG a roddwyd gan y Cyd-Wasanaeth Adnoddau.
- o Rhedeg canolfan gyswllt rithiol; ateb dros 31,000 o alwadau a mwy na 2,400 e-bost.

Diolchodd yr Arweinydd a'r Cabinet i bob aelod o staff, gwirfoddolwyr, partneriaid a chymunedau sydd wedi parhau i gyflwyno gwasanaethau a chefnogi pobl fregus trwy gydol y cyfnod heriol ac anodd hwn. Bu gweithio o gartref gyda chefnogaeth TG yn llwyddiant, a sefydlwyd canolfan gyswllt rithiol sydd wedi gweithio'n dda iawn. Bu hwn yn gyfnod digynsail, a bu dinasyddion Casnewydd yn eithriadol. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r uwch-dîm arweiniol wedi perfformio'n wych, ac y mae hyn i'w groesawu a'i werthfawrogi.

Dywedodd yr Arweinydd fod ystadegau Iechyd Cyhoeddus Cymru dros yr wythnosau diwethaf wedi dangos arwyddion calonogol fod achosion o Covid-19 yn arafu, ond y gallant begynnu eto, felly rhaid i'r ddinas aros yn wyliadwrus a chadw at y canllawiau a roddir gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Llaciwyd rhywfaint ar y cyfyngiadau, ac ail-sefydlwyd gwasanaethau'r Cyngor megis y Cyfleuster Ailgylchu Gwastraff Cartref, sefydlu Canolfan Profi ac Olrhain, a pharatoi i ail-agor ysgolion yn ddiogel.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod mwy o wasanaethau'r Cyngor yn adfer i'r ffordd 'normal newydd' o weithio, a bod mwy o ganoli er mwyn sicrhau nad aiff y gwaith da hwn yn ofer; mae'r Cyngor yn cefnogi economi Casnewydd i ail-godi a chanolbwyntio ar y cymunedau a ddioddefodd waethaf o Covid-19. I wneud hyn, cynigiodd y Cyngor bedwar Nod Adfer Strategol fydd yn helpu aelodau, staff, partneriaid, a chymunedau i ddeall beth fydd y blaenoriaethau am y flwyddyn nesaf.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Cabinet i wneud sylwadau ar ymateb y Cyngor i'r argyfwng:

Canmolodd Aelodau'r Cabinet y staff am y modd y maent wedi ymateb i heriau Covid-19, yn arbennig y staff rheng-flaen sydd wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Nododd y Cabinet fod gan y Cyngor y dechnoleg i allu ymdopi â'r argyfwng o ran fideo-gynadledda, galluogi'r staff i weithio o gartref, ac y bu Hybiau'r Cyngor yn hanfodol yn rhoi help a chefnogaeth i gymunedau mwyaf bregus Casnewydd.

Diolchwyd i dîm tai y Cyngor sydd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y digartref yn cael gofal. Diolchwyd i'r tîm cyllid hefyd am eu gwaith o ddarparu grantiau a rhyddhad ardrethi i fusnesau yn ogystal â gostyngiad treth cyngor i drigolion.

Yr oedd y Cabinet yn falch o gadarnhau na fu unrhyw wahaniaethu rhwng swyddi, gyda'r staff yn helpu ym mhob maes gwasanaeth, a phawb wedi cyfrannu at sicrhau cyflwyno gwasanaethau.

Diolchwyd hefyd i'r holl bartneriaid ac elusennau ledled y ddinas, a'r trigolion a roddodd gymorth a rhoddion elusennol.

Mynegodd y Cabinet eu diolch i Arweinydd y Cyngor am ei harweiniad yn ystod yr argyfwng.

Diolchodd yr Arweinydd i holl aelodau'r Cyngor ar draws yr holl grwpiau gwleidyddol fu'n cydweithio'n agos i sicrhau y bu un ymateb gan Gasnewydd, a diolchodd hefyd i bartneriaid y Cyngor ar Fwrdd Partneriaeth Casnewydd yn Un.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Weithredwr Dros Dro am ei hymdrechion, a chanmol ei harweiniad cryf, fu ar flaen ymateb y Cyngor.

Diolchodd y Prif Weithredwr Dros Dro ei chydweithwyr yn yr uwch-dîm am eu gwaith caled ond hefyd i'r tîm staff yn ehangach ar draws pob maes gwasanaeth. Diolchodd hefyd i'r Arweinydd, y Cabinet a'r hol aelodau etholedig am eu cefnogaeth dros y misoedd diwethaf o ran gallu gwneud penderfyniadau pwysig i liniaru effaith yr argyfwng hwn.

Pwysleisiodd yr Arweinydd y gwaith da a wnaed gan bawb i gadw Casnewydd yn ddiogel, a diolchodd i holl drigolion Casnewydd am ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru/y Cyngor.

Adroddodd yr Arweinydd nad yw'r Nodau Adfer Strategol yn cymryd lle Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor (2017-22) na'r Amcanion Lles, ond yn hytrach eu hategu, a phan fydd gwasanaethau a'r partneriaid yn barod, parheir i gyflwyno'r Cynllun.

- Datblygwyd y pedwar Nod Adfer Strategol gydag Amcanion Lles y Cyngor (Cynllun Corfforaethol 2017-22) wrth graidd yr hyn sy'n cael ei lunio am eleni:

  1. Deall ac ymateb i heriau ychwanegol Covid-19, gan gynnwys colli swyddi, yr effaith ar fusnesau ac ar gynnydd, llwyddiant a lles dysgwyr prif-ffrwd a rhai bregus.

  2. Deall ac ymateb i effaith Covid-19 ar nodau economaidd ac amgylcheddol y ddinas fel y gall Casnewydd ffynnu eto.

  3. Hyrwyddo a gwarchod iechyd a lles ein pobl, diogelu'r mwyaf bregus, ac adeiladu cymunedau cryf a gwydn; a,

  4. Rhoi i bobl yr adnoddau a'r gefnogaeth maent eu hangen i symud allan o'r argyfwng, gan ystyried yn arbennig yr effaith gafodd Covid-19 ar ein cymunedau lleiafrifol ac ymylol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd y pedwar Nod Strategol yn canolbwyntio ar adeiladu ar y gwaith cadarnhaol a wnaed ledled y Cyngor ond gan gydnabod hefyd fod angen mwy o waith gan y Cyngor a'i bartneriaid i ymdrin â'r meysydd sydd wedi dioddef waethaf yn yr argyfwng hwn.

Er enghraifft, cynaliadwyedd tymor-hir y sector gofal cymdeithasol, diweithdra cynyddol, yr anghydraddoldeb a'r tlodi a ddatgelwyd gan Covid-19 yn ein cymuned ac sydd wedi effeithio fwyaf ar y cymunedau BAME ar hyd a lled Casnewydd.

I gyrraedd y ffordd 'normal newydd' o weithio, mae'r Cyngor yn edrych ar:

- Ail-agor llyfrgelloedd y Cyngor yn raddol;
- Cefnogi ail-agor cyfleusterau diwylliannol a hamdden yng Nghasnewydd;
- Busnesau i ddychwelyd yn ddiogel, gan gynnwys manwerthu ac adeiladu er mwyn hybu economi'r ddinas; yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd eu bod wedi ymweld â Debenhams pan ail-agorwyd eu siop yn Friars Walk ac wedi gweld drosti'i hun y gwaith ail-agor, yn ogystal â busnesau manwerthu eraill yng Nghasnewydd;
- Cefnogi pobl gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi colli eu swyddi i ail-hyfforddi, mynd i addysg bellach a chefnogaeth yn ôl i waith;
- Cefnogi ysgolion i ddychwelyd yn raddol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd, er mwyn cyflwyno'r Nodau Strategol, fod y Cyngor yn cynnal Asesiad Effaith Cymunedol fydd yn asesu ac yn ymdrin ag effeithiau argyfwng Covid-19 ar draws cymunedau Casnewydd ac a fydd o gymorth i roi cyfeiriad at y dyfodol i flaenoriaethau a gweithredoedd y Cyngor.

Mae'r Nodau Strategol yn gosod allan yr egwyddorion bras ar gyfer adfer, a chânt eu gweithredu ar sawl lefel trwy gamau a mesurau mwy manwl i gyflwyno gwasanaethau. Bydd meysydd gwasanaeth yn adolygu ac yn newid eu cynlluniau gwasanaeth am 2020/21 i gefnogi cyflwyno'r Nodau strategol, a byddant yn cael eu monitro ac adroddir amdanynt trwy gydol y flwyddyn.

Cymerir y camau canlynol i sicrhau cyflwyno'r Nodau Strategol, gwasanaethau a llywodraethiant y Cyngor. (Dywedodd yr Arweinydd fod inffograffeg ar gael i ddarlunio'r camau hyn):

- Bydd Tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn hyrwyddo'r Nodau Adfer Strategol i'r holl randdeiliaid a chymunedau yng Nghasnewydd.

- Yr angen i adfer gwasanaethau'r Cyngor yn ddiogel, ac ar yr un pryd gynnal amgylchedd gwaith diogel i staff, cynghorwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Mae rhaglen waith ar y gweill i wneud hyn.

- Adfer y prosesau llywodraethiant a democrataidd er mwyn gofalu bod atebolrwydd a thryloywder yn y penderfyniadau a wneir.

- Bydd adolygu Rheoliadau Cyfarfodydd Llywodraeth Leol yn galluogi'r Cyngor i gynnal cyfarfodydd o bell, ac y mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i edrych ar ffyrdd o ail-gyflwyno cyfarfodydd eraill y Cyngor yn y dyfodol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod y Cabinet ym mis Gorffennaf fydd yn gosod allan sut y gall y Cyngor ddychwelyd at gyfarfodydd llaw, etc. Trefnir hyfforddiant i'r holl aelodau fel y gallant gymryd rhan lawn yn y cyfarfodydd hyn.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau Aelodau'r Cabinet ar y Nodau Strategol:

Cadarnhaodd y Cynghorydd Giles mai agor yr ysgolion yw'r cam mawr nesaf i'r gwasanaethau addysg a bod gwaith yn cael ei wneud i baratoi'r plant i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Bydd lles yn parhau yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau y gall pawb ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor wedi darparu'r nifer uchaf o hybiau cefnogaeth yn y rhanbarth, ac wedi darparu cyfarpar TG fel bod modd parhau i addysgu plant.

Dywedodd y Cynghorydd Davies mai un o fanteision y pandemig oedd y lleihad mewn traffig, oedd wedi gwella ansawdd yr aer. Mae'r Cyngor yn dal i weithio tuag at fod yn garbon niwtral erbyn 2030 a rhaid sicrhau ein bod yn manteisio ar y sefyllfa ac yn adeiladu ar y gwelliannau hyn. Hefyd, mae'r lleihad mewn torri gwair wedi caniatáu i fywyd gwyllt ffynnu, ac fel dinas gyfeillgar i wenyn, mae hyn i'w groesawu, Er hynny, rhaid deall hefyd yr effaith ar y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, ac y mae llawer o waith i'w wneud i helpu'r bobl hyn yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Harvey fod parciau'r Cyngor yn awr ar agor yn llawn-amser, er gyda rhai cyfyngiadau ar gyfarpar chwarae; edrychir ar gynlluniau i agor y llyfrgell ganolog, a bu'r llyfrgell deithiol ar waith. Mae cynlluniau hefyd i ail-agor y Bont Gludo.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Jeavons, o ran ansawdd aer a theithio llesol, fod y Cyngor wedi llwyddo yn eu bidiau i Lywodraeth Cymru. Daliodd y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu i weithio, gyda'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Wastesavers Casnewydd ar

ailgylchu. Mae'r system archebu i ymwelwyr â'r CAGC yn gweithio'n dda iawn, ac y mae'r staff yn awyddus i'r system barhau. Cafodd staff eu hail-hyfforddi er mwyn symud pobl i weithio mewn mynwentydd er mwyn ymdopi â nifer uwch o angladdau. Diolchodd y Cynghorydd Jeavons i'r holl staff oedd wedi helpu Debenhams gyda'u cais am ryddhad ardrethi, a arweiniodd at ail-agor y siop.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Cockeram y bu 600K o sesiynau gofal plant gyda pharseli bwyd, pwysau mawr ar wasanaethau plant, ac y mae problemau diogelu ac iechyd meddwl wedi codi o draean. Gwnaeth yr argyfwng i'r gwasanaeth edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio, gyda staff yn mynd allan i gartrefi gyda PPE ac yn rhoi gofal seibiant yng nghartrefi'r plant eu hunain; mae'r Cyngor bellach yn gwneud eu gofal cartref eu hunain gyda phlant anabl a bregus. O ran PPE, yr oedd gan gartrefi gofal y Cyngor ei hun gyflenwad o'r cyfarpar hwn, a gallodd y Cyngor hefyd gyflenwi PPE i gartrefi gofal annibynnol. Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau oherwydd Covid-19 yng nghartrefi gofal y Cyngor. Yn nes ymlaen, bydd pwysau mawr ar ddiogelu. Diolchodd yr Aelod Cabinet i holl staff y gwasanaethau cymdeithasol am eu gwaith caled, a thalodd deyrnged hefyd i'r cysylltwyr cymunedol fu'n cynnal gofalwyr ar yr adeg hon.

Canmolodd y Cynghorydd Rahman y Cyngor am y gwaith a wnaed mewn partneriaeth â Byddin yr Iachawdwriaeth, y Wallich, Pobl, a mudiadau eraill i ddarparu llety, prydau a gwiriadau iechyd i'r digartref yn y ddinas, gan mai'r rhain yw'r bobl mwyaf bregus. Diolchodd hefyd i bawb am yr help a roddwyd i'r gymuned BAME sydd wedi eu taro'n galed gan y firws hwn, ac i'r staff am eu cefnogaeth gydag ymgyrch BLM a materion cydlynu cymunedol.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod am gymryd rhan mewn trafodaeth bord gron gyda threfnydd yr orymdaith BLM yng Nghasnewydd er mwyn parhau â'r ddeialog hon ac i gadw unrhyw gamau ar frig yr agenda.

Adroddodd y Cynghorydd Giles, yn unol â sylwadau'r Cynghorydd Cockeram am gefnogi plant bregus, fod system ar gael gan Heddlu Gwent sy'n gweithio'n agos gydag ysgolion am blant bregus a all fod mewn perygl. Bydd adroddiadau newydd am blant bregus yn cael eu cyfeirio gan y gwasanaeth addysg at y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd y Cynghorydd Giles hefyd fod y cynllun talebau prydau ysgol am ddim wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac y bydd y ddarpariaeth yn parhau trwy gydol mis Awst.

Canmolodd y Cynghorydd Harvey y gwaith a wnaed i gael parseli bwyd allan i'r sawl oedd eu hangen, a bod holl gyfleusterau Dechrau'n Deg Casnewydd wedi aros ar agor. Rhoddodd ddiolch arbennig i bennaeth Ysgol Uwchradd Llanwern oedd wedi cludo papurau i gartrefi plant oedd heb fynediad at TG fel bod modd iddynt barhau â'u haddysg.

Cadarnhaodd Cynghorydd Davies, trwy'r hybiau cymunedol fod dros 600 o barseli bwyd wedi eu cludo i'r rhai mwyaf bregus yn y gymuned, ac y rhoddwyd £30K yn ychwanegol i'r hybiau er mwyn sicrhau y gellir dal ati i gludo parseli bwyd. Diolchodd i Gartrefi Dinas Casnewydd am roi'r gefnogaeth logistaidd fel bod hyn yn gallu digwydd.

Dywedodd y Cynghorydd Jeavons fod parciau, mynwentydd a'r CAGC wedi gallu ail-agor yn dilyn asesiadau risg llym; mae'r asesiadau hyn wedi cyfrannu at lwyddiant ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan mai dyma'r ardal a ddioddefodd waethaf ar ddechrau'r pandemig.

Canmolodd y Cynghorydd Truman staff y Cyngor am gamu i'r bwlch, a hynny ar beth risg i'w hiechyd eu hunain, er mwyn gofalu bod gwasanaethau yn cael eu cynnal.

Diolchodd yr Arweinydd i'w chydweithwyr yn y Cabinet am eu sylwadau, a chynigiodd fod y Cabinet yn cadarnhau'r Nodau Adfer Strategol fydd yn galluogi gwasanaethau'r Cyngor i adfer a rhedeg ac yn dal i gefnogi Nodau Strategol y Cyngor fel y'u gosodwyd allan yng Nghynllun Corfforaethol 2017/22.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd y Cabinet yn unfrydol i gadarnhau'r adroddiad a'r Nodau Adfer Strategol, fydd yn galluogi'r Cyngor i osod llwybr strategol ymlaen i'w Aelodau, staff, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid wrth ymateb i argyfwng iechyd Covid-19.

4 **Covid-19: Effaith Economaidd ac Adferiad**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad sydd yn gosod allan y Strategaeth Effaith ac Adferiad Economaidd i gefnogi a hwyluso busnesau Casnewydd i adfer a dal i redeg.

Cadarnhaodd yr Arweinydd:

- Fod Strategaeth Twf Economaidd Casnewydd wedi ei mabwysiadu yn 2015, a'i chyfoesi a'i chymeradwyo gan y Cabinet yn Chwefror 2020. Bryd hynny, cydnabuwyd fod Casnewydd wedi dod yn ddinas fwy cystadleuol gyda dylanwad cynyddol mewn sectorau gwerth uchel a sector twristiaeth sy'n tyfu'n gyflym.

- Yn dilyn cyhoeddi'r clo ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd llywodraethau'r DU a Chymru becynnau ymyriad digynsail i helpu i liniaru'r gwaethaf o'r difrod economaidd fyddai'n dod yn sgil cyfnod clo maith. Yr oedd dros 2000 o fusnesau Casnewydd wedi derbyn mwy na £26m mewn cymorth grantiau. Bu'r tîm cyllid yn ymdrechu'n galed i gefnogi busnesau yn y cyfnod hwn, a derbyniwyd nifer o lythyrau ac adborth cadarnhaol iawn gan y gymuned fusnes yng Nghasnewydd.

- Yn economaidd, mae Casnewydd yn awr mewn lle gwahanol. Mae disgwyl i ddiweithdra yng Nghymru godi o 3.2% i fwy na 7.3% a chadarnhawyd fod economi'r DU wedi crebachu o 20.4% ym mis Ebrill. Dywed adroddiadau pellach y bydd y DU ar ymyl y dirwasgiad gwaethaf ers tair canrif.

- I adfer ac adsefydlu, mae angen i Gasnewydd nodi pa feysydd o'i heconomi fydd angen cefnogaeth, lle mae cyfleoedd newydd, a sut y gall y Cyngor lunio'r 'normal newydd' gyda busnesau a buddsoddwyr; a gweithio ar y cyd tuag at adferiad Casnewydd.

- Bydd y strategaeth yn yr adroddiad yn ffurfio adendwm i'r Strategaeth Twf Economaidd a fabwysiadwyd; y mae'n cynnig tri maes penodol i ganolbwyntio arnynt: Adfer, Adleoli ac Adfywio:

  - **ADFERIAD** yn y tymor byr. Cefnogi busnesau i sicrhau eu bod yn hawlio'r holl grantiau a'r cymorth ariannol sydd ar gael, cefnogi cyfleoedd newydd a gwneud yn siŵr fod ymyriadau yn briodol, effeithlon ac yn anad dim yn amserol.

  - **ADLEOLI** yn y tymor canol. Parhau i ddenu mewnfuddsoddiad a bod yn glir am yr hyn sydd gan y ddinas i'w gynnig o ran ansawdd bywyd a chyfleoedd am waith. Cyflymu gwelliannau i'r seilwaith digidol i gynyddu lefelau gweithio o gartref, a thyfu'r cynnig addysg a sgiliau i'r gweithlu allu addasu i'r 'normal newydd'; nid yn unig yn y Cyngor ond ar draws Casnewydd gyfan.

  - **ADFYWIO** yn y tymor hwy. Adleoli Casnewydd mewn byd newydd lle bydd cyfleoedd i ail-gydbwyso'r economi gyda'r amgylchedd a chymdeithas i roi mwy o wytnwch a gwell lles i'r trigolion, yn awr ac yn y dyfodol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd mai agwedd bartneriaeth yw hon, ac y bydd y Cyngor yn gweithio gyda'i holl bartneriaid, gan gynnwys Dinas-Ranbarth Caerdydd a Phorth y Gorllewin i sicrhau y daw Casnewydd allan o hyn yn gryfach ac yn wytnach.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gyflwyno'r Strategaeth i'r Cabinet gyda'r argymhelliad i'r Cabinet ei chadarnhau a chychwyn Casnewydd ar y daith i adferiad economaidd.

Gwahoddodd yr Arweinydd Aelodau'r Cabinet i roi sylwadau am yr adroddiad:

Cytunodd holl Aelodau'r Cabinet fod y rhain yn amseroedd digynsail, ond y bydd y Cyngor yn wynebu'r heriau eithriadol sydd o'n blaenau. Mae'r argyfwng hwn yn gyfle i edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio, i gefnogi'r mwyaf bregus yn benodol. Mae angen i'r Cyngor hefyd roi cymorth a chyfarwyddyd i'r sawl sydd wedi colli eu swyddi yn y sectorau lletygarwch, hamdden a manwerthu. Effeithiwr yn fawr ar bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant, gan y bydd llawer yn llai o gyfleoedd am waith. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf o lymder, canfu Casnewydd ffyrdd o wasanaethu'r ddinas a'i thrigolion a bydd yn dal i ymdrechu i gael pobl yn ôl i waith ac ail-gychwyn economi Casnewydd. Rhaid i'r Cyngor sicrhau na chollir cyfleoedd a bod ymyriadau yn amserol ac wedi eu rheoli'n dda i sicrhau adferiad da. Bydd cynllunio ariannol da ar ran y Cyngor yn bwysig i gyrraedd y nod hwn.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Pennaeth Adfywio, Buddsoddi a Thai dros dro i roi sylwadau. Ategodd Mrs Brooks y sylwadau a wnaed eisoes a chadarnhau fod hwn yn gyfle i Gasnewydd adleoli ei hun a llunio a dylanwadu ar y 'normal newydd'.

Diolchodd y Prif Weithredwr Dros Dro i'r tîm am eu gwaith caled i lunio'r ddogfen bwysig hon. Cadarnhaodd Mrs Owen y sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gyda phartneriaid ac y bu hyn yn ymdrin gorfforaethol gan y tîm i edrych ar ffyrdd o gefnogi a chynnal yr economi.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd cyfarfod y Cabinet ym mis Gorffennaf yn cynnwys adroddiad ar Borth y Gorllewin, fydd yn helpu trafodaeth bellach am adferiad economaidd Casnewydd.

Diolchodd yr Arweinydd i gydweithwyr am eu sylwadau, a chynnig fod y Cabinet yn cytuno i fabwysiadu Strategaeth Effaith ac Adferiad Economaidd Covid-19 fel adendwm i'r Strategaeth Twf Economaidd (fel y'i cyfoeswyd yn Chwefror 2020) i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gefnogi economi Casnewydd a gweld lle gellir cael cyfleoedd newydd i lunio'r 'normal newydd' a pharhau i wneud y mwyaf o gyfleoedd am dwf a buddsoddi tan 2025.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd y Cabinet yn unfrydol i gadarnhau'r Strategaeth

5 **Covid-19: Effaith Ariannol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn amlinellu i'r Cabinet y pynciau a'r risgiau allweddol i gyllid y Cyngor yn deillio o Covid-19, yr amcangyfrif o gostau ychwanegol a chyllid ar gyfer ymateb y Cyngor i'r argyfwng a chynnydd wrth weinyddu cefnogaeth ariannol a roddir i fusnesau a threthdalwyr lleol yn ystod cyfnod clo Covid-19.
Cadarnhaodd yr Arweinydd y bu arweinwyr awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd, a chanmolodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai am y gwaith a wnaeth mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

Adroddodd yr Arweinydd am y tri phwnc ariannol allweddol sy'n deillio o sefyllfa Covid -19:

- Beth wnaeth y Cyngor i gefnogi busnesau ac aelwydydd/unigolion bregus?

- Faint fydd hyn oll yn gostio a sut y telir amdano?

- Beth mae hyn yn olygu i'r rhagolygon ariannol am eleni – pa effaith a gaiff ar gyllid y Cyngor?

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y sefyllfa yn ddeinamig iawn, gyda'r ymateb i'r argyfwng ar lefel Cymru gyfan ac yn lleol yn newid yn ddyddiol. Yn hynny o beth, mae'r effaith ar gyllid y Cyngor yn newid, ac y mae'r adroddiad yn amlygu'r meysydd risg posib a'r costau ddaw i ran y Cyngor (yn bennaf hyd at Fehefin). Erys y sefyllfa yn newidiol ac y mae'n dibynnu ar ymatebion pellach.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r argyfwng gyda thros £2.4 biliwn o fentrau, a bu llywodraeth leol ar flaen y gad o ran cyflwyno'r gwahanol gynlluniau sydd ar waith; canmolodd yr Arweinydd y gefnogaeth hon.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn rhoi manylion am lle gwariwyd yr arian, gyda'r rhan fwyaf yn mynd i gefnogi busnesau trwy'r 'Gronfa Gwytnwch Economaidd' a rhoi rhyddhad ardrethi i fusnesau cymwys. Hefyd, mae gallu'r gwasanaeth iechyd yn cael ei gefnogi, a llywodraeth leol yn cael arian i roi cefnogaeth benodol i ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, y digartref, a darparwyr gofal.

Adroddodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn lleol yn darparu cefnogaeth ariannol i fusnesau ac aelwydydd / unigolion bregus, a thynnodd sylw at y canlynol:

- rhyddhad ardrethi yn golygu arbed cryn swm o arian i fusnesau cymwys, sy'n golygu na fydd yn rhaid iddynt dalu ardrethi busnes am eleni;

- talu dros £28m o grantiau na fydd angen eu had-dalu i ryw 2,300 o fusnesau i'w cynnal yn ariannol yn y tymor byr tra buont ar gau. Canmolwyd y Cyngor am weithredu mor fuan yn hyn o beth; benthyg arian a wnaeth y Cyngor er mwyn cael yr arian allan iddynt mor fuan ag oedd modd, a thrwy hynny, talwyd tua £16m erbyn diwedd wythnos gyntaf Ebrill;

- mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda sawl aelwyd ac wedi gohirio talu Treth y Cyngor i'r rhai sydd wedi dioddef colled ariannol neu ansicrwydd dros y cyfnod cychwynnol hwn.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn rhagweld gwario oddeutu £6m mewn mentrau penodol i gefnogi'r canlynol:

- y plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim tra bod yr ysgolion ar gau – tan ddiwedd Awst.

- cynyddu ei stoc o lety dros dro i gefnogi'r digartref yn y cyfnod hwn.

- cefnogi darparwyr gofal gyda mwy o arian i dalu am eu costau cynyddol.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at yr ystadegau a'r ffeithiau y tu ôl i rai o'r ffigyrau hyn:

- Dosbarthwyd dros 60,000 o dalebau bwyd i deuluoedd cymwys;
- Cynigiwyd llety dros dro a chefnogaeth benodol i 75 o gysgwyr allan;
- Cynigiwyd llety brys dros dro i 232 o deuluoedd;

- Rhoddwyd dros £900k o gymorth ariannol i gartrefi gofal i'w helpu i gwrdd â chostau cynyddol cynnal poblogaeth hŷn a bregus y ddinas.

Dywedodd yr Arweinydd, er bod llawer o hyn yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, fod y Cyngor yn wynebu cryn ansicrwydd ariannol ei hun trwy'r cyfnod hwn, a thynnodd sylw at rai o'r pynciau allweddol yn yr adroddiad:

- bydd costau yn dal i ddod i'w rhan y tu hwnt i fis Mehefin tra bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyllido ar gael tan fis Mehefin yn unig (fel y deallwn ar hyn o bryd);

- gostyngiad sylweddol yn incwm y Cyngor o ffioedd a thaliadau; mae peth cefnogaeth wedi ei gyhoeddi, ond at y dyfodol ni fydd yn talu am holl golledion y Cyngor;

- colledion o gasglu Treth y Cyngor; mae'r tîm refeniw wedi cymryd agwedd o gydymdeimlo, a byddant yn parhau i wneud hynny, ond y mae angen casglu treth y cyngor a gofynnodd yr Arweinydd i drethdalwyr Casnewydd ddeall hyn;

- cost gynyddol Cynllun Gostwng Treth y Cyngor. Anogodd yr Arweinydd yr holl deuluoedd hynny sy'n cael trafferth talu Treth y Cyngor i ymchwilio i hyn a gwneud cais am y budd-dal.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd fod y Cyngor yn parhau i weithio'n dda gyda Llywodraeth Cymru ac yn chwilio am gyllid pellach lle bo modd. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn newid yn gyson, felly mae llawer o ansicrwydd am gyllid y Cyngor yn y flwyddyn ariannol hon. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod gan y Cyngor arian wrth gefn os bydd angen.

Pwysleisiodd yr Arweinydd yr angen i bob maes gwasanaeth reoli eu cyllidebau craidd cystal ag sydd modd, ac i osgoi gorwario. Bydd y prosesau arferol o fonitro cyllidebau yn parhau; mae'r rhain yn heriol oherwydd yr argyfwng a bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad ar yr alldro refeniw.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd, hyd yma, fod ymateb y Cyngor wedi bod yn gynhwysfawr a chadarn, gyda gwasanaethau hanfodol fwy neu lai yn cael eu cynnal, a chefnogaeth ychwanegol yn cael ei roi i'r rhai mwyaf bregus. Bu hyn oll yn bosib oherwydd ymdrechion arwrol staff y Cyngor. Rhoes yr Arweinydd ddiolch diffuant am hyn, gan i'r cyfan gael effaith gadarnhaol iawn ar fywydau pobl yn y cyfnod heriol hwn.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau Aelodau'r Cabinet:

Cytunodd Aelodau'r Cabinet y gall fod angen torri mwy o wasanaethau yn y dyfodol er mwyn cael cyllideb gytbwys, ac anogwyd Llywodraeth y DU i roi'r gorau i'w agenda llymder. Canmolwyd y staff a'r ffordd wych y mae cyllid y Cyngor yn cael ei reoli'n ddarbodus. Rhaid meddwl am gost newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir a chostau newydd a all godi yn sgil Covid-19.

Diolchodd yr Arweinydd i'w chydweithwyr am eu sylwadau a dweud, cyn Covid-19, fod awdurdodau lleol yn teimlo effeithiau agenda llymder y Llywodraeth. Canmolodd yr Arweinydd Lywodraeth Cymru eto am y gwaith maent wedi ei wneud gydag awdurdodau lleol o ran darparu cymaint o gymorth ariannol ag sydd modd; canmolodd hefyd AS Dwyrain Casnewydd Jessica Morden am godi hyn yn Nhŷ'r Cyffredin a hefyd y Farwnes Wilcox o Gasnewydd oedd hefyd wedi crybwyll trafferthion llywodraeth leol yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Pennaeth Cyllid i wneud sylwadau. Anogodd Mr Rushworth fusnesau i wneud cais am y grantiau busnes a gynigir gan Lywodraeth Cymru - mae chwe diwrnod ar ôl cyn i'r grantiau hyn ddod i ben, a chadarnhaodd fod gohebiaeth wedi mynd at fusnesau i'w hatgoffa i ymgeisio, gan ddweud mai'r terfyn amser yw 30 Mehefin. Aeth ymlaen i ddweud fod peth ansicrwydd at y dyfodol am ryw hanner dwsin o faterion ariannol allweddol, a bod y rhain yn cael eu trafod ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru. Erys y sefyllfa yn newidiol, ond mae'n disgwyl y bydd rhagolwg ariannol cyntaf y gyllideb ar gael yn ystod y bythefnos nesaf. Gofynnodd i bob Pennaeth Gwasanaeth i ofalu am eu cyllidebau craidd, gan y bydd rheolaeth ariannol gadarn yn helpu'r Cyngor i oroesi'r cyfnod anodd hwn.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro y bydd gwaith yn cychwyn yr wythnos nesaf ar y CATC am 2021/22 ymlaen, a fydd yn wahanol iawn i'r hyn a gynigiwyd cynt.

Diolchodd yr Arweinydd i bawb am eu sylwadau, a chynigiodd fod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

- nodi a gwneud sylwadau yn ôl yr angen ar y gefnogaeth ariannol a roddir i fusnesau, mudiadau ac aelwydydd lleol

- nodi costau'r Cyngor i gyflwyno gwasanaethau penodol i Covid-19 yn chwarter cyntaf y flwyddyn, ac yn benodol fod y gefnogaeth ariannol i'r costau hyn i fod i ddod i ben ar ddiwedd Mehefin, ac eithrio am ddarpariaeth prydau ysgol am ddim, fydd yn parhau tan ddiwedd Awst.

- nodi a gwneud sylwadau yn ôl yr angen am y meysydd allweddol lle mae risgiau a heriau ariannol a wynebir gan y Cyngor eleni o ganlyniad i'r sefyllfa bresennol, a'r ansicrwydd ynghylch llawer o hyn o gofio natur ddeinamig y sefyllfa.

- nodi, cytuno a phwysleisio pwysigrwydd i bob gwasanaeth weithredu o fewn eu cyllidebau craidd am 'weithgareddau heb fod yn rhai sy'n ymateb i Covid-19' yn y flwyddyn i ddod orau y gallant, o gofio heriau ychwanegol Covid-19.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd y Cabinet yn unfrydol i gadarnhau'r adroddiad

6 **Covid-19: Olrhain Cyswllt**

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o ddweud fod yr adroddiad hwn yn mynd beth o'r ffordd i gadarnhau cyfnod ein hadferiad a'r ffordd ymlaen.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, oedd â'r bwriad o sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol ac i geisio cadarnhad o'r ffordd ymlaen i gyflwyno Olrhain Cyswllt yng Ngwent.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr adroddiad yn dweud pa waith a wnaed hyd yma i sefydlu Tîm Olrhain Cyswllt Lleol yng Nghasnewydd. Cadarnhaodd mai trefniadau dros dro yw'r rhain am y tri mis cyntaf, er mwyn cael y gwasanaeth i redeg mewn amser byr iawn. Bydd angen cytuno ar strategaeth yn y dyfodol ar y cyd â phartneriaid eraill, i ddatblygu model cyflwyno a strwythur llywodraethiant at y tymor hwy. Yn allweddol i hyn fydd y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru i dalu am y gwasanaeth, gan na ellir ei gyflwyno o fewn adnoddau presennol y Cyngor.

Aeth yr Aelod Cabinet ymlaen i ddweud, fel y gŵyr pawb, fod y strategaeth Profi, Olrhain ac Amddiffyn yn elfen allweddol o lwybr Llywodraeth Cymru at lacio'r clo Coronafirws yng Nghymru. Bydd mwy o brofi ac olrhain cysylltiadau yn caniatáu adnabod y sawl sydd â'r firws a phwy sydd mewn perygl o'i ddal, fel y gallant hunan-ynysu ac atal ei ledaenu i eraill.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod cynghorau yng Nghymru wedi cael y cyfrifoldeb o sefydlu celloedd olrhain cyswllt cymunedol ym mhob un o'u hardaloedd, mewn partneriaeth a'r Byrddau Iechyd rhanbarthol, gydag olrhain cyswllt yn cael ei oruchwylio ar lefel genedlaethol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yw cynllun ar 13 Mai felly nid oedd lawer o amser i osod hyn i fyny a'i gael i weithio. Talodd yr Aelod Cabinet deyrnged i'r swyddogion am y gwaith enfawr a wnaed i sefydlu'r Tîm Olrhain Cyswllt Lleol yng Nghasnewydd.  Yr oedd angen ymdrech ar y cyd ar draws holl wasanaethau'r Cyngor i recriwtio a hyfforddi staff, gosod y cyfarpar i fyny, datblygu cronfeydd data dros dro a sefydlu trefniadau rheoli dros dro.

Oherwydd eu profiad o ddelio â chlefydau heintus, mae Swyddogion Iechyd Amgylchedd y Cyngor yn arwain ar y gwaith hwn ar lefel leol a rhanbarthol. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet na fyddai hyn wedi bod yn bosib heb i nifer sylweddol o staff o wasanaethau eraill wirfoddoli i wneud y gwaith olrhain cyswllt hwn o gartref, a llawer ohonynt yn fregus eu hunain ac yn cysgodi.

Oherwydd cyflymder y newid, bu cryn ddatblygiadau ers drafftio'r adroddiad gyntaf, a rhoddodd yr Aelod Cabinet ddiweddariad i'r Cabinet ar y cynnydd dros yr wythnosau diwethaf:

- dechrau'r gwaith o olrhain cyswllt ar 1 Mehefin gyda 10 ymgynghorydd cyswllt o Wasanaethau Cwsmeriaid a phump olrheiniwr cyswllt o Warchod y Cyhoedd, oll yn gweithio o gartref ac yn defnyddio cronfa ddata dros dro a sefydlwyd gan y Cyd-Wasanaeth Adnoddau (CWA).
- Mae cronfa ddata genedlaethol newydd CRM bellach ar-lein ac yn rhedeg, ond mae wedi golygu ail-hyfforddi'r staff i ddefnyddio system TG wahanol. Ers hynny, cawsom lif cyson o achosion positif.
- Yn nwy wythnos gyntaf Mehefin, cafwyd 11 achos positif, a gynhyrchodd 54 cyswllt gwahanol. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cynyddu wrth i gyfyngiadau gael eu llacio ac i brofi gynyddu. Mae ICC yn ymdrin â dosbarthu'r data.
- Ar 9 Mehefin, cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y bydd arian ar gael i dalu cost cyflwyno'r gwasanaeth o fis Gorffennaf tan ddiwedd Mawrth 2021 ond ni neilltuwyd swm penodol. Awgryma amcangyfrifon cychwynnol y bydd angen gweithlu o dros 400 ledled Gwent ar gost o ryw £13 miliwn. Mae hyn yn cynnwys chwe thîm lleol gyda 70 o staff ym mhob un a Thîm Goruchwylio Rhanbarthol dan arweiniad Arweinwyr Clinigol Byrddau Iechyd a Swyddogion Iechyd Amgylchedd.
- Nid oes cytundeb clir am y model cyflwyno yn y dyfodol na'r trefniadau llywodraethiant. Rhagwelwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi'r staff ac yn rheoli'r gwasanaeth yn rhanbarthol, ond mae trafodaethau yn canoli bellach ar gael cynghorau i barhau i gyflogi timau olrhain lleol. O ran llywodraethiant, mae'r model a gynigir yn rhagweld bwrdd partneriaeth ar frig y strwythur, a allai gynnwys aelodau etholedig. Ond fel y dywedwyd yn gynharach, mae'r model cyflwyno yn llwyr ddibynnol ar y cyllid fydd ar gael.
- Mae ICC yn disgwyl i'r gwasanaeth redeg 24 awr y dydd a 7 diwrnod yr wythnos.

I gloi, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet yr effaith a gaiff y gwaith olrhain cyswllt ar wasanaethau rheoleiddio eraill. Mae'r Cyngor wedi neilltuo 17 aelod  staff i'r gwasanaeth dros dro, a bydd gan Swyddogion Iechyd Amgylchedd mrol o hyd ar lefel ranbarthol dros yr holl gyfnod olrhain cyswllt. Felly bydd yn rhaid lleihau gwasanaethau statudol a rheolaethol eraill yn sylweddol er mwyn gwneud y gwaith olrhain cyswllt.

Cadarnhaodd yr Arweinydd mai dyma un o'r meysydd allweddol yn y broses adfer, a gwahoddodd sylwadau gan Aelodau'r Cabinet:

Yr oedd Aelodau'r Cabinet yn llwyr gefnogi'r gwasanaeth fydd yn cadw ysgolion ar agor, cadw'r gyfradd R yn isel hyd nes y ceir brechlyn/triniaeth. Cytunodd pawb fod y staff sy'n delio â'r system hon yn eithriadol, yn enwedig gan fod BIPAB yn ganolbwynt i'r firws hwn ar gychwyn y pandemig. Diolchodd Aelodau'r Cabinet i Lywodraeth Cymru am ddwyn cost y gwasanaeth hwn: mae hynny i'w groesawu. Er hynny, gyda 7 aelod staff wedi eu cyfeirio at waith arall, mae cost i'r Cyngor o ran ail-hyfforddi, a rhaid talu am hyn. Awgrymwyd fod angen mwy o sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru, ICC a BIPAB am gyllid cyson, swyddfeydd, etc. Yr oedd pawb yn cefnogi'r gwasanaeth hwn sy'n helpu i atal ton newydd o covid-19, a chanmolodd pawb yr Aelod Cabinet a'r staff.

Diolchodd yr Arweinydd i'r cydweithwyr am eu sylwadau, a gwahoddodd y Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio i roi sylw. Dywedodd Mr Price na all y Cyngor gynnal ail-gyfeirio staff am byth, a bydd problemau hefyd gyda llywodraethiant a'r model cyflwyno, ac a yw hyn yn gynaliadwy neu beidio: rhaid cael cyllideb ar lefel ranbarthol.

Canmolodd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio y staff am eu gwaith caled yn cael hyn i weithio mewn dwy wythnos a hanner; bu'n ymdrech ledled y Cyngor. Cadarnhaodd yr angen i edrych ar gyflwyno a chyllido'r gwasanaeth at y dyfodol, a gofynnodd i'r Cabinet nodi'r adroddiad a chadarnhau'r agwedd a gymerwyd i sefydlu'r gwasanaeth.

Yr oedd yr Arweinydd yn hapus i dderbyn yr adroddiad am fod y gwasanaeth yn hanfodol i adfer at y dyfodol.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd y cabinet a chytuno'n unfrydol â'r adroddiad.

Caeodd yr Arweinydd y cyfarfod a diolch i'r swyddogion am y gwaith eithriadol a wnaed yn ystod y cyfnod hwn. Diolchodd hefyd i'r Cabinet am eu cefnogaeth, a diolch yn arbennig i'r Dirprwy Arweinydd.

7 **GWYLIWCH GYFARFOD Y CABINET TRWY GLICIO AR Y DDOLEN HON**